21st November 2018

Llannon Community Council Meeting

Minute no. 185 – Members Present

Councillors:

E Dole
K Thomas
N Holman
D Snaith
P Williams
L Williams
M Jones
E James
L M Davies
A Owens (late arrival)

Chairperson Councillor E James presided over the meeting

Also present: The Clerk and Community Development Officer/Responsible Finance Officer

Minute no. 186 – Apologies for Absence
Apologies for absence were received by Cllrs G Jones, D Jones, J Brace and R Thomas.

Minute no. 187 – Declarations of Interest
A declaration of interest was received from Councillor E Dole as he is the Leader of Carmarthenshire County Council.

Minute no. 188 – Signing of the Minutes – 17th October 2018 Council Meeting
Resolved that the minutes of the above meeting, having been previously circulated, be accepted as read, confirmed and signed as a true and legal record of the matters transacted.
Reason – to adhere to the requirements of the Local Government Act 1972 Sch 12, para 41 (1) and (4) and section 99.

Minute no. 189 – Card Machine
The RFO reported that RMS have refused to provide the Council and the Tumble Hall with a card machine for financial transactions.

Minute no. 190 – Marquees
The CDO reported that there had been no progress with the acquisition of marquees as yet. **Resolved** to make enquiries to establish if the previous CDO Christine Davies could loan hers again to the Council.

Cyngor Cymuned Llannon
Cyfarfod y Cyngor

Cofnod rhif 144 – Aelodau'n bresennol:

Cynghorwyr:

E Dole
K Thomas
N Holman
D Snaith
P Williams
L Williams
M Jones
E James
L M Davies
A Owens (cyrhaeddodd yn hwyr)

Yr Cadeirydd, y Cynghorydd E James, oedd yn llywyddu ar y cyfarfod

Hefyd yn bresennol: Y Clerc a'r Swyddog Datblygu Cymunedol (SDC)/ Swyddog Cyllid Cyfrifol (SCC**).**

Cofnod rhif 186 – Ymddiheuriadau am Absenoldeb
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddiwrth y Cynghorwyr G Jones, D Jones, J Brace a R Thomas.

Cofnod rhif 187 – Datgan Buddiant
Cafwyd datganiad o fuddiant gan y Cynghorydd E Dole, gan taw ef yw Arweinydd Cyngor Sir Gaerfyrddin.

Cofnod rhif 188 – Llofnodi'r Cofnodion – Cyfarfod y Cyngor, Hydref 17eg 2018
Penderfynwyd derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddosbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd yn amodol ar fân newidiadau.
Rheswm – i gydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972
At 12, para 41 (1) a (4) ac adran 99

Cofnod rhif 189 – Peiriant Cerdyn
Dywedodd y SCC bod RMS wedi gwrthod darparu peiriant cerdyn (at ddefnydd gwneud gweithrediadau ariannol) ar gyfer y Cyngor a Neuadd y Tymbl.

Cofnod rhif 190 – Pebyll Mawrion
Dywedodd y SCC na fu unrhyw gynnydd hyd yn hyn o ran caffael pebyll mawrion.
Penderfynwyd gwneud ymholiadau i weld a fyddai'r cyn-SDC, Christine Davies, yn fodlon rhoi benthyg ei heiddo hi i'r Cyngor unwaith eto.

Minute no. 191 – Remembrance Day
It was noted that there was an issue with the timing of the service this year. Unfortunately, the service at Tumble had started late which meant that the service at Cross Hands had started when people were arriving. It was **resolved** that there is a need for members to bring this problem to the attention of the respective organisers in readiness for future events.

Minute no. 192 – Adopt a Kiosk
It was reported that there is a need to provide an earthing facility for the kiosk by way of Western Power providing a PME supply. **Resolved** to instruct the Clerk to contact Western Power to establish whether this facility is available at the location of the kiosks.

Minute no. 193 – Cross Hands Park Sign
Members raised a concern regarding the poor condition of the above sign. **Resolved to** follow this matter up with the caretakers to see if the sign can be renovated.

Minute no. 194 – PACT/Police Report
There was no report available from the Police regarding crimes in the area.

Minute no. 195 – Finance Reports
The RFO provided an overview on the previously circulated reports including the following:

Bank reconciliation report.
Report on invoices for payment.
Report on income received.

There was a general discussion regarding the content of the reports and the following additional information was considered:

- It was reported that the bank mandate has now been resolved.
- The RFO is still awaiting the printed cheques to be delivered from the bank for use in the month end cheque run.
- There is a need for a review of the allocation of funds into the various budget headings. The RFO will liaise with the Clerk in resolving this matter.
- There have been issues raised by HMRC with regard to payroll accounts resulting in an over-payment. This has been due to HMRC assuming that there were 2 sets of payroll activity on-going during the period.
- The RFO outlined that a reporter from Llanelli On-Line has agreed to publish information regarding the activities of the Council. It was agreed that some members of the Council are concerned that Llanelli On-line has a political bias that any press releases from the Council will be copied to Y Cneifiwr as well as Llanelli On-line.
- A request was made for the RFO to provide an update of the way that the singles night is being organised.

Cofnod rhif 191 – Sul y Cofio

Nodwyd bod problem wedi codi ynghylch amseriad y gwasanaeth eleni. Yn anffodus, roedd y gwasanaeth yn y Tymbl wedi dechrau'n hwyr, ac roedd hyn wedi golygu bod y gwasanaeth yn Cross Hands eisoes wedi dechrau wrth i bobl gyrraedd y lleoliad. **Penderfynwyd** bod angen i'r aelodau ddod â'r broblem hon at sylw'r trefnyddion priodol er mwyn osgoi'r fath ddryswch pan yn trefnu digwyddiadau yn y dyfodol.

Cofnod rhif 192 – Mabwysiadu Ciosg
Dywedwyd bod angen darparu cysylltiad daearu i'r ciosg drwy drefnu bod Western Power yn darparu cyflenwad PME. **Penderfynwyd** gofyn i'r Clerc i gysylltu â Western Power i ofyn a ydy'r adnodd hwn ar gael yn lleoliad y ciosgau.

Cofnod rhif 193 – Arwydd Parc Cross Hands
Mynegodd yr aelodau eu pryder ynghylch cyflwr gwael yr arwydd uchod. **Penderfynwyd** gofyn i'r gofalwyr ddilyn y mater i fyny i weld os oes modd trwsio'r arwydd.

Cofnod rhif 194 – Adroddiad PACT/ yr Heddlu
Nid oedd unrhyw adroddiad ar gael oddiwrth yr Heddlu ynghylch troseddau yn yr ardal.

Cofnod rhif 195 – Adroddiadau Ariannol
Cafwyd trosolwg gan y SCC o'r adroddiadau a ddosbarthwyd yn flaenorol, gan gynnwys y canlynol:

Adroddiad Cysoni Banc.
Adroddiad ynghylch yr anfonebau sydd i'w talu.
Adroddiad yn rhestru'r incwm a dderbyniwyd.

Bu trafodaeth gyffredinol ynghylch cynnwys yr adroddiadau ac ystyriwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol:

- Dywedwyd bod mater y mandad banc wedi'i ddatrys erbyn hyn.
- Mae'r SCC yn dal i aros i'r banc gyflenwi'r sieciau printiedig i'w defnyddio ar gyfer taliadau diwedd y mis.
- Mae angen adolygu'r modd y mae arian yn cael ei ddyrannu i amrwyiol benawdau'r gyllideb. Bydd y SCC yn cyd-drafod â'r Clerc i ddatrys y broblem hon.
- Mae Cyllid y Wlad wedi cyfeirio at broblemau ynghylch cyfrifon cyflogres yn arwain at or-daliad. Mae hyn wedi digwydd oherwydd bod Cyllid y Wlad wedi cymryd yn ganiatâol bod dau set o weithgareddau cyflogres yn mynd yn eu blaen yn ystod y cyfnod.
- Dywedodd y SCC bod gohebydd *Llanelli Ar-Lein* wedi cytuno cyhoeddi gwybodaeth am weithgareddau'r Cyngor. Gan fod rhai aelodau o'r Cyngor yn poeni bod *Llanelli On-Line* yn dangos tuedd wleidyddol, cytunwyd bod unrhyw ddatganiad i'r wasg yn cael ei gopïo at *Y Cneifiwr* yn ogystal â *Llanelli Ar-Lein*.
- Gofynnwyd bod y SCC yn darparu diweddariad ynghylch y ffordd y mae'r noson i bobl sengl yn cael ei threfnu.

Minute no. 196 – Queries on Council Minutes and Reports

It was **resolved** that it would be good practice for Councillors to email any queries on minutes or finance matters to staff prior to any meetings in order that answers can be provided in readiness for the meeting.

Minute no. 197 – Land Use Planning – Town and Country Planning Act
(a) Proposed Development
Resolved that the following applications be noted onto the minutes.
Reason: Members did not request that observations/objections be conveyed to the County Planning Authority in respect of the proposed developments.

S/38007 Proposed rear ground floor sun lounge extension at 39 Llechyfedach, Upper Tumble, Llanelli. Andrew Morris.

(b) Decision Notices Granted
Resolved that the following applications be noted onto the minutes.
None received.

(c) Decision Notices Refused
None received.

(d) Decision Notices Appealed
None received.

Minute no. 198 – CDO report
The CDO provided an overview to her previously circulated report and the following matters were raised:

Tumble Park
It was noted that the children of the 2 Tumble schools have provided drawings of their preferences for the park development. This will be used as evidence for the next stage of the RCDF grant claim for the park.

Christmas Tree
The Clerk reported that the Council has received Christmas trees from Troserch woods and will be erected in time for the switch on. The Clerk reported that it had not been possible to purchase alternative coloured lights in readiness for the switch on at a reasonable price.

CETMA event
The RFO encouraged all Councillors to pass on information on the proposed CETMA event to local residents and to attend the event themselves if possible.

Stage School
A report was provided on the uptake of places at the new stage school. It was noted that there is still room available for the 9-14 age group to fill some of the remaining places at the stage school. **Resolved to** agree to the promotion of the school by providing tee-shirts for the participants.

Cofnod rhif 196 – Ymholiadau ynghylch Cofnodion ac Adroddiadau'r Cyngor

Penderfynwyd y byddai'n arfer da pe byddai'r Cynghorwyr yn ebostio unrhyw ymholiadau ynghylch y cofnodion neu faterion ariannol at y staff cyn unrhyw gyfarfod fel bod modd i'r staff baratoi atebion ar gyfer y cyfarfod.

Cofnod rhif 197 – Cynllunio Defnydd Tir – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref
(a) Datblygiad Arfaethedig
Penderfynwyd bod y ceisiadau canlynol yn cael eu nodi yn y cofnodion.
Rheswm: Nid oedd yr aelodau wedi gofyn i'r arsylwadau/gwrthwynebiadau mewn perthynas â'r datblygiadau arfaethedig gael eu cyfleu i Awdurdod Cynllunio y Sir.

S/38007 Estyniad llawr daear arfaethedig i adeiladu ystafell haul yng nghefnlun 39 Llechyfedach, Tymbl Uchaf, Llanelli. Andrew Morris.

(b) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Gymeradwy-wyd
Penderfynwyd cofnodi'r ceisiadau canlynol i'r cofnodion.
Nid oedd unrhyw hysbysiadau o benderfyniadau a gymeradwywyd.

(c) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Wrthodwyd
Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau o benderfyniadau a wrthodwyd.

(ch) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Apeliwyd
Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau o benderfyniadau a apeliwyd

Cofnod rhif 198 – Adroddiad y SDC
Cafwyd trosolwg gan y SDC o'r adroddiad, a ddosbarthwyd yn flaenorol, ac fe amlygwyd y materion canlynol:

Parc y Tymbl
Nodwyd bod plant dwy ysgol y Tymbl wedi darparu cynlluniau yn dangos yr hyn yr hoffent weld wrth bod y parc yn cael ei ail-ddatblygu. Defnyddir y rhain fel tystiolaeth ar gyfer y cam nesaf o wneud cais am grant ar gyfer y parc o'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig.

Coed Nadolig
Dywedodd y Clerc bod y Cyngor wedi derbyn coed Nadolig o goedwig Troserch, a bydd rhain yn cael eu gosod yn eu lle mewn da bryd ar gyfer cynnau'r goleuadau. Dywedodd y Clerc nad oedd hi wedi bod yn bosibl prynu goleuadau lliw amgen am bris rhesymol ar gyfer y digwyddiad cynnau'r goleuadau.

Digwyddiad CETMA
Roedd y SCC am annog pob Cynghorydd i hysbysu'r preswylwyr lleol am y digwyddiad CETMA arfaethedig, ac i fynychu'r digwyddiad eu hunain pe byddai modd gwneud hynny.

Ysgol Lwyfan
Cafwyd adroddiad ynghylch faint o bobl sydd wedi ymaelodi yn yr ysgol lwyfan newydd. Nodwyd bod dal lle ar gael ar gyfer y grŵp oedran 9 -14 i lenwi'r llefydd sy'n weddill yn yr ysgol lwyfan. **Penderfynwyd** cytuno i hysbysu'r ysgol drwy ddarparu crysau-t i'r cyfranogwyr.
Dementia Friends Training
It was **resolved** to proceed with the Dementia Friends training for the staff and councillors including an invite to all community members and the adjacent councils.

Website
It was reported that quotes had been received for the new website and two companies have been shortlisted to attend for an interview. It was agreed to give delegated authority to Cllr G Jones to decide on the most appropriate candidate.

Fairtrade
It was **resolved** to adopt the principles of fair trade for all activity with both the Council and Tumble Hall.

Minute no. 199 - Councillor A Owens
Councillor A Owens attended the meeting at 7.50 pm.

Minute no. 200 – CDO report continued
Straws
It was **resolved that** the centre will no longer purchase plastic straws, knives or forks.

Alternative phone providers
The RFO provided a report on quotations as received with regard to an alternative phone system. The RFO was requested to draw up a specification for the system in order that it can be tendered to various companies in conjunction with Cllr G Jones.

Minute no. 201 – Councillor Report
Councillor E Dole reported on the following matters:

- He is investigating a land acquisition issue with regard to Ravelston Court.
- Grugos woods – It has been discovered that plastic and asbestos material has been detected in part of the development already completed at this site.
- New Bus Stop - The housing department is proposing to provide a new bus stop at Maesderi with the old bus stop demolished and a new fence erected. There was a query as to the extent of consultation that has taken place with the tenant more particularly as to whether the old shelter needs to be demolished or retained for use by the tenant. Cllr Dole agreed to follow up on this matter.

Minute no. 202 – Staff Hall Meeting
The Council received the notes of the recent staff meeting. It was **resolved** to accept the following recommendations:

- The purchase of an additional chest freezer for the kitchen.
- The RFO will consult with Mandy Owen on the needs of the kitchen with regard to a fryer.
- The purchase of a small till for use with carveries etc.
- There is a need for a further review of the booking forms for the hall. It was agreed that the matter will be referred back to a meeting of the Hall Management Committee.
- There is a need to check that the locks to the ladies toilets have been inspected and proved adequate.

Hyfforddiant Ffrindiau Dementia

Penderfynwyd bwrw ymlaen gyda'r hyfforddiant Ffrindiau Dementia i'r staff a'r cynghorwyr, ac i estyn gwahoddiad i holl aelodau'r gymuned ac aelodau o gynghorau cyfagos.

Gwefan
Adroddwyd bod dyfynbrisiau ar gyfer y wefan newydd wedi'u derbyn, a bod dau gwmni wedi cyrraedd y rhestr fer i fynychu cyfweliad. Cytunwyd rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cynghorydd Gary Jones i ddewis yr ymgeisydd mwyaf addas.

Masnach Deg
Penderfynwyd mabwysiadu egwyddorion masnach deg ar gyfer holl weithgareddau'r Cyngor a Neuadd y Tymbl.

Cofnod rhif 199 – Y Cynghorydd A Owens
Cyrhaeddodd y Cynghorydd A Owens y cyfarfod am 7.50 yh.

Cofnod rhif 200 – Adroddiad y SDC - parhad
Gwelltau
Penderfynwyd na fydd y ganolfan yn prynu gwelltau, cyllyll neu ffyrc plastig o hyn ymlaen.
Darparwyr ffôn amgen
Cafwyd adroddiad gan y SCC ynghylch y dyfynbrisiau a dderbyniwyd parthed â system ffôn amgen. Gofynnwyd i'r SCC lunio manyleb ar gyfer y system fel bod y Cyngor, mewn cydweithrediad â'r Cynghorydd Gary Jones, yn gallu tendro'r gwaith i amrywiol gwmnïau.

Cofnod rhif 201 – Adroddiad y Cynghorydd Sir
Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd E Dole ynghylch y materion canlynol:

- Mae'n archwilio mater caffael tir, sef Ravelston Court.
- Coedwig Grugos – mae wedi dod i'r amlwg bod deunydd plastig ac asbestos wedi'i ddarganfod mewn rhan o'r datblygiad sydd eisoes wedi'i gwblhau ar y safle hwn.
- Safle Bws newydd – Mae'r Adran Dai yn bwriadu gosod safle bws newydd, gan ddymchwel yr hen safle bws a chodi ffens newydd. Gofynnwyd faint o ymgynghori â'r tenant oedd wedi digwydd ac, yn benodol, os oes angen dymchwel yr hen gysgodfan neu ei chadw at ddefnydd y tenant. Cytunodd y Cynghorydd E Dole i wneud ymholiadau pellach.

Cofnod rhif 202 – Cyfarfod Staff y Neuadd
Roedd y Cyngor wedi derbyn cofnodion y cyfarfod staff diweddar.
Penderfynwyd derbyn yr argymhellion canlynol:

- Prynu rhewgist ychwanegol i'r gegin.
- Bydd y SCC yn ymgynghori gyda Mandy Owen ynghylch anghenion y gegin parthed â ffrïwr.
- Prynu til bach i'w ddefnyddio yn y carferi ayyb.
- Mae angen cynnal adolygiad pellach o ffurflenni bwcio y Neuadd. Cytunwyd cyfeirio'r mater yn ôl i gyfarfod o Bwyllgor Rheoli'r Neuadd.
- Mae angen gwirio bod y cloeon yn nhoiledau'r marched wedi cael eu harolygu, a'u bod yn ddigonol.
- Recommend that no posters are to be provided to the front doors of the hall.

- It was agreed not to proceed with the purchase of a PA system.
- It was noted that the staff have agreed to support Epilepsy Action as a chosen charity.

Minute no. 203 - County Councillor Reports
Resolved that there would be a benefit in the County Councillors providing a written report in advance of meetings in the future.

Minute no. 204 - Fly Tipping - Tumble Car Park
Members discussed the problems currently occurring at the car park with regard to fly-tipping. The Clerk provided a report on a recent meeting with the County Council Enforcement Officer with regard to the policies of the Council. The following matters were agreed:

- There will be further signs provided to the area informing members of the public of the policies of the County Council with regard to the use of the site.
- The County Council will seek to empty bins on a more regular basis.
- The Council will consider prosecutions in the near future based upon the CCTV evidence
- The Clerk will act as responsible officer with regard to any prosecutions requiring evidence from the Council.
- The Council needs to consider its policy with regard to CCTV and compliance with current policies.

Minute no. 205 – Cross Hands Bowls Pavilion and Changing rooms
The Clerk provided an update on the negotiations with the County Council with regard to the Asset Transfer of the above properties, more specifically the fact that the offer from the County had increased to £35,000 payable up front to the Council. It was noted that the Council's workmen are capable of completing improvement works including the provision of a masonry wall to replace the existing timber structure should this be appropriate.
It was **resolved** to accept the offer from the County Council and proceed with work to weatherproof the structures.
Further **resolved** to arrange a site meeting with Councillors and the caretakers to discuss proposals for future use of the changing rooms. It was agreed that the changing rooms need to be opened for viewing by the following people - Councillors N Holman, K Thomas, EW James, M Jones and G Jones.

Minute no. 206 – Suspending Standing Orders
Resolved to suspend standing orders in order to continue the transaction of business beyond 9.00 pm.

Minute no. 207 – Correspondence
Resolved to note the following general correspondence onto the minutes: -

Writer	Subject
Carmarthenshire County Council	Statutory play sufficiency assessment
Urdd	Letter of thanks for donation

- Argymell nad oes unrhyw bosteri yn cael eu gosod ar ddrysau ffrynt y Neuadd.
- Cytunwyd i beidio â phrynu system PA.
- Nodwyd bod y staff wedi dewis cefnogi Epilepsy Action Cymru fel eu helusen dewisol.

Cofnod rhif 203 – Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir
Penderfynwyd y byddai derbyn adroddiadau ysgrifenedig y Cynghorwyr Sir cyn y cyfarfod yn fuddiol iawn.

Cofnod rhif 204 – Tipio Anghyfreithlon – Maes Parcio y Tymbl
Roedd yr aelodau wedi trafod y problemau presennol ynghylch tipio anghyfreithlon yn y maes parcio. Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynghylch cyfarfod diweddar a gynhaliwyd gyda Swyddog Gorfodi y Cyngor Sir ynghlyn â pholisïau'r Cyngor. Cytunwyd ar y materion canlynol:

- Bydd arwyddion ychwanegol yn cael eu gosod yn yr ardal i hysbysu'r cyhoedd o bolisïau'r Cyngor Sir ynghylch defnyddio'r safle
- Bydd y Cyngor Sir yn ceisio gwaghau'r biniau yn fwy cyson.
- Yn seiliedig ar dystiolaeth Camerau Teledu Cylch Cyfyng, bydd y Cyngor Sir, yn y dyfodol agos, yn ystyried erlyn troseddwyr.
- Bydd y Clerc yn gweithredu fel y swyddog cyfrifol os bydd angen i'r Cyngor ddarparu unrhyw dystiolaeth i erlyn troseddwyr.
- Mae angen i'r Cyngor ystyried ei bolisi ynghlyn â Chamerau Teledu Cylch Cyfyng, a chydymffurfio â pholisïau cyfredol.

Cofnod rhif 205 – Pafiliwn Bowlio ac Ystafelloedd Newid Cross Hands
Cafwyd diweddariad gan y Clerc ynghylch y trafodaethau gyda'r Cyngor Sir i Drosglwyddo Asedau yr eiddo uchod, yn fwy penodol y ffaith bod cynnig y Cyngor Sir wedi cynyddu i £35,000, a'r swm yn daladwy i'r Cyngor ymlaen llaw.
Nodwyd bod gweithwyr y Cyngor yn gallu cwblhau'r gwaith adnewyddu, gan gynnwys adeiladu wal gerrig yn lle'r strwythur pren presennol pe bai hynny'n addas.
Penderfynwyd derbyn y cynnig oddiwrth y Cyngor Sir a bwrw ymlaen gyda'r gwaith o wneud y strwythurau yn ddiogel rhag y tywydd. Yn ategol, **penderfynwyd** trefnu cyfarfod safle gyda'r Cynghorwyr a'r gofalwyr i drafod pa ddefnydd byddai'n cael ei wneud o'r ystafelloedd newid yn y dyfodol. Cytunwyd bod angen agor yr ystafelloedd newid er mwyn i'r bobl canlynol gael y cyfle i'w gweld - y Cynghorwyr N Holman, K Thomas, EW James, M Jones a G Jones.

Cofnod rhif 206 – Atal y Rheolau Sefydlog
Penderfynwyd atal y rheolau sefydlog fel bod modd parhau i ystyried busnes y Cyngor ar ôl 9.00 yh

Cofnod rhif 207 – Gohebiaeth Gyffredinol

Penderfynwyd nodi'r ohebiaeth gyffredinol ganlynol i'r cofnodion:

Awdur	Pwnc
Cyngor Sir Caerfyrddin	Asesiad Statudol - Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
Yr Urdd	Llythyr o ddiolch am rodd

Minute no. 208 – Links

The Council received a request from Links for the free use of Tumble Hall for the organisation of NAAFI coffee mornings for ex-service personnel. **Resolved** to approve the request subject to the events not conflicting with existing business.

Minute no. 209 –Tumble Hall

a) Licensable Activity

Resolved to note that the following licensable activities were ratified by the Council.
Reason – to comply with the terms of premises license (Licensing Act 2003).

(a) 23/11/18 Jazz Night
(b) 24/11/18 YFC
(c) 25/11/18 Party
(d) 27/11/18 Singles Night
(e) 28/11/18 Cross Hands Dinner
(f) 30/11/18 Wrestling
(g) 1/12/18 Christmas Market
(h) 3/12/18 Dinner
(i) 7/12/18 Country & Western
(j) 9/12/18 Bridge Club
(k) 11/12/18 Drefach
(l) 14/12/18 Show
(m) 15/12/18 Show
(n) 21/12/18 Show
(o) 22/12/18 Show

Minute no. 210 – Improvements to Tumble Hall

Members of the Council considered proposals for improvements to Tumble Hall. The Clerk also provided an overview of the views as expressed by staff members during a recent meeting. It was agreed to proceed with the following proposals:

- Remove all upholstered seating around the walls of the Lounge.
- Investigate the option to upgrade and preserve the wooden block floor to the Lounge.
- Provide LED lighting panels to replace existing sub-standard lighting.
- The extent of loft insulation to the hall needs to be improved.
- Renovate the shutters to the bar area in order that this area can be segregated from the Lounge.
- Move the trophy cupboard to an alternative wall/bar area in order to facilitate the installation of an Iboard touch screen or equivalent.
- The Councillor photos currently located in the committee room to be located on the staircase.
- Remove television from the Lounge.
- Purchase alternative rectangular tables which have fold up legs for use in the Lounge.
- Install blinds for the windows of the Lounge.

It was **resolved** to agree to donate any furniture which is surplus to requirements to Cross Hands hall or any other voluntary group.

Cofnod rhif 208 – Links

Roedd y Cyngor wedi derbyn cais oddiwrth Links i ddefnyddio Neuadd y Tymbl am ddim er mwyn trefnu boreau coffi NAAFI i gyn-filwyr. **Penderfynwyd** cymeradwyo'r cais ar yr amod na fydd y digwyddiadau yn gor-gyffwrdd â busnes sydd eisoes yn bodoli yn y Neuadd.

Cofnod rhif 209 – Neuadd y Tymbl

(a) Gweithgarwch Sydd Angen Trwydded

Penderfynwyd nodi bod y gweithgareddau canlynol sydd angen trwydded wedi cael eu cadarnhau gan y Cyngor.

Rheswm – i gydymffurfio â thelerau trwydded y safle (Deddf Trwyddedu 2003)

(b) 23/11/18	Noson Jazz
(c) 24/11/18	CFfI
(ch) 25/11/18	Parti
(d) 27/11/18	Noson i bobl di-briod
(dd) 28/11/18	Cinio Cross Hands
(e) 30/11/18	Reslo
(f) 1/12/18	Marchnad Nadolig
(ff) 3/12/18	Cinio
(g) 7/12/18	Canu Gwlad
(ng)9/12/18	Clwb Bridge
(h) 11/12/18	Drefach
(i) 14/12/18	Sioe
(j) 15/12/18	Sioe
(k) 21/12/18	Sioe
(ll) 22/12/18	Sioe

Cofnod rhif 210 – Gwelliannau i Neudd y Tymbl

Roedd aelodau'r Cyngor wedi ystyried cynigion i wella Neuadd y Tymbl. Yn ogystal, roedd y Clerc wedi rhoi trosolwg o farn aelodau'r staff yn ystod cyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar. Cytunwyd bwrw ymlaen gyda'r cynigion canlynol:

- Tynnu'r seddau clustogog sydd o gwmpas walydd y Lolfa i ffwrdd.
- Archwilio'r opsiwn i uwchraddio a chadw llawr blociau pren y Lolfa.
- Gosod paneli golau LED yn lle'r goleuadau anfoddhaol presennol.
- Mae angen gwella inswleiddio atig y Neuadd.
- Adfer caeadau ardal y bar fel bod modd ynysu'r ardal hon o ardal y Lolfa.
- Symud y cwpwrdd tlysau i wal/ ardal bar amgen fel bod modd gosod sgrîn gyffwrdd Iboard neu debyg.
- Symud ffotograffau'r Cynghorwyr, sydd ar hyn o bryd yn yr ystafell bwyllgor, a'u gosod ar hyd wal y staer.
- Symud y teledu o'r Lolfa.
- Prynu byrddau hirsgwar amgen sydd â choesau sy'n plygu i'w defnyddio yn y Lolfa.
- Gosod cysgodlenni ar ffenestri'r Lolfa.

Penderfynwyd cynnig unrhyw gelfi sy'n weddill i Neuadd Cross Hands neu unrhyw grŵp gwirfoddol arall.

Minute no. 211 – Reports

Cllr D Snaith reported that there is a house that is stockpiling vehicles in a field on the Pontyberem to Llannon Road. **Resolved** to request that Cllr Snaith refer the matter to Councillors D Jones and E Dole as this is a County matter.

Cllr A Owens reported that there is a problem of trees overhanging the road at Bancyffynnon Cross Hands - which prevents cars being parked there. **Resolved** to request that Cllr Owens refer the matter to Councillors D Jones and E Dole as this is a County matter.

Cllr L Williams reported that the Woodland Trust is accepting further applications for tree packs. It was **resolved** to support the request from Cllr L Williams and suggest that the group proceed with an application for Maes yr Haf.

Meeting ended at 9.35 pm

Signed ..... Date .....
Chairman

Cofnod rhif 211 – Adroddiadau

Dywedodd y Cynghorydd D Snaith bod cerbydau lluosog yn cael eu cadw mewn cae oddiar yr heol o Bontyberem i Lannon. **Penderfynwyd** gofyn i'r Cynghorydd Snaith gyfeirio'r mater at y Cynghorwyr D Jones ac E Dole gan fod hyn yn fater i'r Cyngor Sir.

Dywedodd y Cynghorydd A Owens bod problem ynghylch coed yn hongian uwchben yr heol ym Mhancyffynnon, Cross Hands, a bod hyn yn atal ceir rhag parcio yno. **Penderfynwyd** gofyn i'r Cynghorydd Owens gyfeirio'r mater at y Cynghorwyr D Jones ac E Dole gan fod hyn yn fater i'r Cyngor Sir.

Dywedodd y Cynghoryddr L Williams bod Coed Cadw yn derbyn ceisiadau pellach am becynnau coed. **Penderfynwyd** cefnogi cais y Cynghorydd L Williams, gan awgrymu bod y grŵp yn gwneud cais ar gyfer Maes yr Haf.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.35yh

Llofnod …….. Dyddiad …….
Cadeirydd